

# Defnydd meddygon o gyfryngau cymdeithasol

## 1 Yn *Arfer meddygol da*,<sup>1</sup> rydym yn nodi:

- 36 Rhaid i chi drin cydweithwyr mewn ffordd deg a gyda pharch.
- 65 Rhaid i chi sicrhau bod eich ymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth eich cleifion ynddoch, yn ogystal ag ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn
- 69 Wrth gyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd, gan gynnwys siarad neu ysgrifennu yn y cyfryngau, rhaid i chi gynnal cyfrinachedd cleifion. Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, dylech gofio y gallai deunydd cyfathrebu a fwriadwyd ar gyfer ffrindiau neu deulu fod ar gael i gynulleidfa ehangach.

- 70 Wrth hysbysebu'ch gwasanaethau, rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth y byddwch yn ei chyhoeddi yn ffeithiol a bod modd ei chadarnhau, ac nad yw'n camfanteisio ar y ffaith bod cleifion yn agored i niwed neu eu diffyg gwybodaeth feddygol.

## 2 Yn *Cyfrinachedd*,<sup>2</sup> rydym yn nodi:

- Mae nifer o ddatgeliadau amhriodol yn rhai anfwriadol. Ni ddylech rannu gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion lle y bydd modd i rywun ddigwydd clywed, er enghraifft, mewn man cyhoeddus neu mewn fforwm sgwrsio ar y rhyngwyd...

- ## 3
- Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y mae modd i feddygon weithredu'r egwyddorion hyn. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestriad.

### Cyfryngau cymdeithasol

- ## 4
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn disgrifio cymwysïadau ar y we sy'n caniatáu i bobl greu a chyfnwid cynnwys. Yn yr arweiniad hwn,

byddwn yn defnyddio'r term i gynnwys blogiau a microflogiau (megis Twitter), fforymau ar y rhyngwyd (megis doctors.net), cymunedau cynnwys (megis YouTube a Flickr), a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol (megis Facebook a LinkedIn).

- ## 5
- Ni fydd y safonau a ddisgwylir gan feddygon yn newid oherwydd eu bod yn cyfathrebu trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol yn hytrach na chyfathrebu wyneb yn wyneb neu thrwy gyfrwng cyfryngau traddodiadol eraill. Fodd bynnag, mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn creu amgylchiadau newydd lle y bydd yr egwyddorion sefydledig yn berthnasol.

- 6 Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch presgripsiynu,<sup>3</sup> sy'n cynnig cyngor ynghylch defnyddio gwefannau er mwyn darparu gwasanaethau meddygol.
- 7 Yn ogystal â'r arweiniad hwn, dylech sicrhau eich bod yn ymwybodol o bolisi diweddaraf eich sefydliad ynghylch cyfryngau cymdeithasol, a'i ddilyn.

## Preifatrwydd

- 8 Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol wedi cymylu'r terfynau rhwng bywyd cyhoeddus a bywyd preifat, ac mae modd i eraill droi at wybodaeth ar-lein yn hawdd. Dylech fod yn ymwybodol o gyfyngiadau preifatrwydd ar-lein a dylech adolygu'r gosodiadau preifatrwydd ar gyfer eich holl broffiliau cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd.<sup>4</sup> Mae hyn am y rhesymau canlynol.
  - a Ni all gwefannau cyfryngau cymdeithasol warantu cyfrinachedd beth bynnag fo'r gosodiadau preifatrwydd sydd mewn grym.
  - b Efallai y bydd modd i gleifion, eich cyflogwr a darpar gyflogwyr, neu unrhyw sefydliad arall y mae gennych chi berthynas ag ef, droi at eich gwybodaeth bersonol.
  - c Efallai y bydd gwybodaeth am eich lleoliad<sup>5</sup> yn cael ei chynnwys mewn lluniau a chynnwys arall, gan fod ar gael i eraill ei gweld.
  - d Ar ôl cyhoeddi gwybodaeth ar-lein, mae'n gallu bod yn anodd ei dileu oherwydd y bydd defnyddwyr eraill yn ei dosbarthu ymhellach efallai, neu'n gwneud sylwadau amdani.

## Manteision a risgiau defnyddio cyfryngau cymdeithasol

- 9 Gall defnydd meddygon o gyfryngau cymdeithasol gynnig budd ar gyfer gofal cleifion trwy:
  - a ymgysylltu pobl gyda thrafodaethau ynghylch polisi ac iechyd y cyhoedd
  - b sefydlu rhwydweithiau proffesiynol cenedlaethol a rhyngwladol

- c hwyluso'r cyfleoedd i gleifion droi at wybodaeth am iechyd a gwasanaethau.

## Cynnal terfynau

- 10 Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn creu risgiau hefyd, yn enwedig pan fydd terfynau cymdeithasol a phroffesiynol yn mynd yn aneglur. Rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn *Cynnal terfyn proffesiynol rhyngoch chi a'ch claf*.<sup>6</sup>
- 11 Os bydd claf yn cysylltu â chi ynghylch eu gofal neu ynghylch materion proffesiynol eraill trwy gyfrwng eich proffil preifat, dylech nodi nad oes modd i chi gymysgu perthnasoedd cymdeithasol a phroffesiynol a phan fo hynny'n briodol, dylech eu cyfeirio at eich proffil proffesiynol.

## Cynnal cyfrinachedd

- 12 Bydd nifer o feddygon yn defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol proffesiynol nad oes modd i'r cyhoedd droi atynt. Mae gwefannau o'r fath yn gallu bod yn lleoedd defnyddiol er mwyn cael cyngor ynghylch arfer cyfredol mewn amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, rhaid i chi fod yn ofalus o hyd na fyddwch yn rhannu gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion.
- 13 Er na fydd darnau unigol o wybodaeth yn torri amodau cyfrinachedd ar eu pen eu hunain efallai, gallai cyfanswm y wybodaeth a gyhoeddir fod yn ddigon i adnabod claf neu rywun sy'n agos iddynt.
- 14 Ni ddylech ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol y mae modd i'r cyhoedd droi atynt er mwyn trafod cleifion unigol neu eu gofal gyda'r cleifion hynny neu unrhyw un arall.

## Parch ar gyfer cydweithwyr

- 15 Mae *Arfer meddygol da* yn nodi bod yn rhaid i feddygon drin cydweithwyr mewn ffordd deg a gyda pharch.<sup>7</sup> Mae hyn yn cynnwys pob sefyllfa a phob math o gyswllt a chyfathrebu. Ni ddylech fwlio, aflonyddu neu wneud sylwadau di-alw-amdanynt, di-sail neu anghynladwy am unigolion ar-lein.

- 16** Wrth ryngweithio gyda neu wneud sylwadau am unigolion neu sefydliadau ar-lein, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod deunydd sy'n cael ei bostio ar-lein yn destun yr un cyfreithiau ynghylch hawlfraint a difenwi<sup>8</sup> ag y mae cyfathrebu ysgrifenedig neu ar lafar, os byddant yn cael eu gwneud mewn cyd-destun personol neu broffesiynol.<sup>9</sup>

### Anhysbysrwydd

- 17** Os byddwch yn nodi eich bod yn feddyg mewn cyfryngau cymdeithasol y mae modd i'r cyhoedd droi atynt, dylech nodi'ch enw hefyd. Mae unrhyw ddeunydd a ysgrifennir gan awduron sy'n cynrychioli eu hunain fel meddygon yn debygol o gael ei ymddiried ac mae'n rhesymol cymryd ei fod yn cynrychioli safbwyntiau'r proffesiwn yn fwy cyffredinol.<sup>10</sup>
- 18** Yn ogystal, mewn nifer o achosion, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod modd olrhain cynnwys dienw sy'n cael ei lanlwytho i'w darddle gwreiddiol.<sup>11</sup>

### Gwrthdaro rhwng buddiannau

---

- 19** Pan fyddwch yn postio deunydd ar-lein, dylech fod yn agored am unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau, gan ddatgan unrhyw fuddiannau ariannol neu fasnachol mewn sefydliadau gofal iechyd neu mewn cwmnïau fferyllol a bio-feddygol.<sup>12</sup>

### Ffynonellau gwybodaeth eraill

---

Cymdeithas Feddygol Prydain (2011) *Using social media: practical and ethical guidance for doctors and medical students* Llundain, Cymdeithas Feddygol Prydain, argraffiad 1af.

Cyngor Meddygon dan Hyfforddiant Cymdeithas Feddygol Awstralia, Cyngor Meddygon dan Hyfforddiant Cymdeithas Feddygol Seland Newydd, Cymdeithas Myfyrwyr Meddygol Seland Newydd, Cymdeithas Myfyrwyr Meddygol Awstralia (2010) *Social media and the medical profession – a guide to online professionalism for medical practitioners and medical students* Canberra, Cymdeithas Feddygol Awstralia.

Mansfield SJ, Morrison SG, Stephens HO, et al (2011) Social media and the medical profession *Med J Aust* 194: 642–442011.

Cymdeithas Feddygol Canada (2011) *Social media and Canadian physicians – issues and rules of engagement* Ottawa, Cymdeithas Feddygol Canada.

Coleg Meddygon a Llawfeddygon Columbia Brydeinig (2010) *Social media and online networking forums* Vancouver, Coleg Meddygon a Llawfeddygon Columbia Brydeinig.

## Ôl-nodion

---

- 1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC.
- 2 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* Llundain, CMC.
- 3 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau* Llundain, CMC.
- 4 Am gyngor ymarferol ynghylch gosod gosodiadau preifatrwydd ar gyfer gwefannau cyfryngau cymdeithasol, trowch at *Using social media: practical and ethical guidance for doctors and medical students* (2011), a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain
- 5 Megis cyfesurynnau System Leoli Fyd-eang (GPS).
- 6 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Cynnal terfyn proffesiynol rhyngoch chi a'ch claf* Llundain, CMC.
- 7 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC, paragraff 36.
- 8 Difenwi yw'r weithred o wneud datganiad anghyfiawnadwy ynghylch person neu sefydliad, y bernir ei fod yn niweidio eu henw da.
- 9 [2008] EWHC 1781 (QB).
- 10 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC, paragraff 69.
- 11 [2008] EWHC 1781 (QB).
- 12 Rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch trefniadau ariannol a masnachol a gwrthdaro rhwng buddiannau. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Trefniadau ariannol a masnachol a gwrthdaro rhwng buddiannau* Llundain, CMC.